



**Environmental permitting of Hinkley Point C: summary of proposed decision** (pages 2-12)

**Trwydded amgylcheddol i Hinkley Point C: crynodeb o'r penderfyniad a gynigir** (tudalennau 13-23)

# Environmental permitting of Hinkley Point C: summary of proposed decision

## Introduction

The Environment Agency is the independent environmental regulator for the nuclear industry in England. We make sure that nuclear power stations meet high standards of environmental protection.

Any company that wants to operate a nuclear power station must show that it can do the following safely and securely, while also protecting the environment:

- build, commission, operate and decommission the power station
- manage the wastes it produces

NNB Generation Company (Hinkley Point C) Limited applied to the Environment Agency to change its water discharge activity permit in December 2022. We consulted on the application from January to March 2023.

The application asked the Environment Agency to make these changes to the permit:

- remove all references to the acoustic fish deterrent (AFD)
- remove all references to the effects of abstracting cooling water because the Environment Agency does not regulate this from the open sea
- add the discharge of seawater and biomass from the fish recovery and return system

The Environment Agency's proposed decision is to grant the variation the operator has requested. We are proposing to add new conditions and limits in the permit to protect people and the environment.

We want your views on our proposed decision and draft permit to help us come to a final decision in summer 2023.

## New nuclear power stations – the government's view

Energy policy, including the use of nuclear power, is a matter for government. Government published an [Energy white paper: Powering our Net Zero Future](#) in 2020 that set out the need for nuclear power, among other measures, to help the UK achieve net zero by 2050.

In 2022, the government also published the [British Energy Security Strategy](#). This states an aim that by 2050, up to a quarter of the power used in Great Britain will be from nuclear.

We have published our own plan, [EA2025 creating a better place](#) to guide our activities.

Our 5-year action plan (EA2025) sets out 3 goals:

- a nation resilient to climate change
- healthy air, land and water
- green growth and a sustainable future

We will continue to work with the government, regulatory partners, industry and others to enable nuclear energy production. And whilst doing this, we will make sure that people and the environment are properly protected. Nuclear is a low carbon energy source that could contribute significantly towards net zero goals and implementing the British Energy Security Strategy.

Our processes align with the goals in EA2025 because they help make sure that nuclear power stations are designed and operated in ways which minimise waste, consider sustainability and protect the environment.

## Regulating nuclear power stations

The Environment Agency regulates specific environmental matters at nuclear sites in England by issuing environmental permits. These permits cover:

- site investigation and preparation
- construction works and relevant associated developments (such as workers' accommodation)
- operation and decommissioning the power station

In deciding whether to grant the permits, we will take into account matters relevant to the specific site as well as the Generic Design Assessment for the design proposed for the site.

We also work closely with the Office for Nuclear Regulation (ONR), which regulates the safety and security aspects of nuclear sites.

Read about our role as a [regulator on nuclear sites](#).

## About Hinkley

The Hinkley Point nuclear power stations are on the north Somerset coast. Hinkley Point A was Hinkley Point's first nuclear power station. It operated from 1965 to 2000 and is being decommissioned.

Hinkley Point B began operation in 1976. It stopped generating electricity on 1 August 2022.

EDF's company NNB Generation Company (Hinkley Point C) Ltd is building a new, twin reactor nuclear power station at the site. It is expected to begin generating electricity in 2026.


Read about our regulation of [Hinkley Point C power station](#).

## The UK EPR™ design

There are various types of nuclear reactors around the world. One of the most common types is the pressurised water reactor (PWR), including the UK EPR™.

In the reactor core, some of the uranium atoms that make up the fuel, split in a process called nuclear fission. These fissions produce heat in a continuous process called a chain reaction. The heat created by the nuclear fission is used to heat water inside the reactor, which is circulated by pumps in the primary circuit to a steam generator. In the steam generator, the very hot primary circuit water is used to heat water in the separate secondary circuit. This produces steam which is fed to a turbine. This makes the turbine spin and drives a generator that produces electricity.

This image shows a simplified schematic of the EPR™ reactor




## The cooling water system

In UK nuclear power stations, sea water is usually used in the third water circuit to cool the condenser of the turbine, converting the steam of the secondary circuit back to water. For Hinkley Point C, this will require a continuous supply of water taken from the Bristol Channel by 2 intake tunnels 3.3km offshore, one for each reactor unit. Each intake tunnel includes 2 low velocity side entry (LVSE) intake heads.

After being used within the plant, the seawater would then be discharged back to the Bristol Channel at a higher temperature through a single outfall cooling water tunnel (serving both reactor units), approximately 1.8km long.

A small proportion of the seawater will be discharged back to the Bristol Channel using a fish recovery and return system through a separate outfall tunnel approximately 0.5km long.

The company has produced this diagram showing its proposal for a fish protection system.



The cooling system is considered by these 3 regulators with different regulatory powers, the:

- Environment Agency in relation to the water discharge activity permit
- Secretary of State for Energy Security and Net Zero (formerly Business, Energy and Industrial Strategy) in relation to the Development Consent Order
- Marine Management Organisation in relation to the marine licence

The Environment Agency does not regulate the intake of cooling water from the sea at Hinkley Point C. This is because under the Water Resources Act you only need an abstraction licence to take water from lakes, rivers, estuaries or streams, or from groundwater. This intake is considered to be open sea.

## Our consultation on the permit application

We publicly consulted on NNB Generation Company (Hinkley Point C) Limited's application to vary the water discharge activity permit from 24 January to 2 March 2023.

You can view the [closed consultation](#) and responses (if the respondent gave permission) on our consultation website. We received 50 consultation responses from members of the public, local councils, environmental groups, public bodies and departments, and other interested parties.

We have been considering the relevant responses to this consultation and have been carrying out our assessments since then.

We used the relevant responses to help inform our proposed decisions on whether to grant the permit variation and what conditions or limits should change. We are grateful to everyone who took the time to respond to the consultation and attend our consultation event.

We address any relevant issues raised in our proposed decision document, where we also set out our draft conclusions on the company's application.

## The existing water discharge activity permit

The original water discharge activity permit application (in 2011) included an AFD in the design of the cooling water system. This uses sound to encourage fish to move away from the water intake, thereby aiming to reduce the number of fish which could be drawn into the pipe. The AFD was proposed as 1 of 3 fish protection mechanisms with a low velocity side intake and fish recovery and return system.

The existing water discharge activity permit, granted in 2013, allows the cooling water system to operate as described in the application. We included conditions in that permit that required the operator to submit reports to the Environment Agency describing how their proposed AFD will operate and minimise any effects on fish.

The operator is now asking us to remove these conditions from the permit as they no longer propose to use an AFD in the station design.

There is a similar requirement in the Development Consent Order and in the marine licence, which were issued at the same time as the permit, for the AFD. After consulting with Natural England and the Marine Management Organisation, we have concluded that the most appropriate way to regulate the cooling water intake is through the Development Consent Order.

When considering this permit variation application, we assessed the effects of removing the AFD on the:

- \* potential for water pollution
- \* habitat and species directly affected by the discharge from the fish recovery and return outfall

## Our proposed decision

Our proposed decision is that we should grant the permit variation for the water discharge activity. The limits and conditions attached to the permit will make sure that people and the environment are protected from water discharge under normal operation.

To reach our proposed decision, we considered the following:

- \* the relevant legislation
- \* government policy and guidance
- \* our own guidance
- \* the relevant responses to our consultation on the permit application

We also completed these assessments:

- Habitats Regulations assessment (HRA)
- site of special scientific interest (SSSI) assessment
- Water Framework Directive (WFD) compliance assessment

## **Assessing impacts on designated wildlife sites**

Before making decisions about permit applications we must carry out assessments to check whether the activities carried out under an environmental permit could have an effect on designated wildlife sites. This includes carrying out a HRA on European sites, and an assessment of operations that are likely to damage SSSIs.

## **Habitats Regulations assessment**

A HRA is an assessment that we must carry out when we determine a permit for an activity that could have a significant effect on a European site. The activity does not need to take place within a European site to have an effect, but there must be a link, or pathway to a site, and the features within that site must be sensitive to the risks.

European sites include:

- Special Areas of Conservation (SAC) – which are designated for important high quality habitat sites and rare species
- Special Protection Areas (SPAs) – for the protection of rare and vulnerable birds
- Ramsar sites

Ramsar sites are wetlands of international importance designated under the Ramsar Convention, but it is government policy that they are given the same protection as SACs and SPAs.

The habitats and species protected by these European sites are collectively known as ‘designated features’.

The assessment must be carried out alone and in combination with other permissions, plans and projects on the designated features of the sites.

## **Site of special scientific interest assessment**

A SSSI assessment is a test that we must carry out when we determine a permit to assess if an activity is likely to damage their features.

SSSIs are the finest sites for wildlife and natural features in England, supporting many rare and endangered species, habitats and natural features.

## **What we looked at in our ecological assessments**

We considered the likely effect of dead and damaged fish and invertebrates being discharged from the fish recovery and return system outlets on both ecology and water quality. This includes:

- \* any potential smothering effects from this biomass on species and habitats
- \* changes to water quality from the release of chemical and nutrients from the decay of this biomass
- \* the subsequent effect this change in water quality may have on species and habitats
- \* any habitat loss from these potential effects

We only considered this discharge as it is the only one that would be affected by this permit variation for a water discharge activity. For our HRA, we assessed all these potential risks on their own and combined with the risks from other ongoing activities and planned projects in the area.

The following European sites were identified as having the potential to be adversely affected by the risks set out above:

- Severn Estuary SAC
- Severn Estuary SPA
- Severn Estuary Ramsar
- River Usk SAC
- River Wye SAC
- Somerset Levels and Moors SPA
- Somerset Levels and Moors Ramsar
- Bristol Channel Approaches SAC

The potential risk would be from toxic contamination, nutrient enrichment, and smothering from the release of dead and damaged fish and invertebrates, with the potential to also cause habitat loss.

Our HRA demonstrates that the release of dead and damaged fish and invertebrates from the fish recovery and return system will not result in an adverse effect on the integrity of the European sites.

## **SSSIs**

The following 8 SSSIs were identified as being potentially at risk from the fish recovery and return system discharge from Hinkley Point C:

- Bridgwater Bay SSSI
- Blue Anchor to Lilstock Coast SSSI
- Steep Holm SSSI
- Brean Down SSSI
- Severn Estuary SSSI
- Flat Holm SSSI
- River Usk SSSI
- River Wye SSSI

The potential risk would be from toxic contamination, nutrient enrichment, and smothering from the release of dead and damaged fish and invertebrates, with the potential to cause habitat loss.

Our SSSI assessment demonstrates that the release of dead and damaged fish and invertebrates from the fish recovery and return system will not result in the condition of the sites deteriorating, nor will it prevent them from improving or recovering where necessary.

## **Complying with the Water Framework Directive (WFD)**

When we assessed the risk of pollution from dead and damaged fish and invertebrates, we found that the water quality changes would not compromise water body environmental objectives. We



looked at how the discharges might affect the environment together with the available data on other activities and found no case for significant effects.

We therefore propose that there is minimal risk of these water bodies being unable to meet their objectives under the WFD because of these discharges.

## The draft permit with proposed conditions and limits

This section provides information about what the draft permit variation allows, and any changes to limits and conditions.

The existing permit regulates the operational water discharge activities from Hinkley Point C – they are discharges of these non-radioactive liquid effluents:

- returned cooling water from the turbine condensers
- trade process effluents from the various plant systems (including those that maintain water purity and chemistry to keep the best operating conditions and maximise efficiency)
- treated sewage effluent (from staff welfare facilities)

The draft varied permit will also now regulate the returned seawater through a fish recovery and return system.

As a result of our assessment on the impact of the fish recovery and return system discharge, we propose including limits on volume, rate and the total biomass discharged from the fish recovery and return system outlet.

We propose removing all conditions (or parts of conditions) relating to the AFD.

We have concluded that there would be no adverse effect on the integrity of the relevant European sites (in relation to pollution from regulated discharges to waters) if there is no AFD in place. This includes those sites functionally linked to the Severn Estuary.

We have also concluded that the proposed permit variation will not cause the current status of the water bodies to deteriorate, nor prevent them from achieving their objectives.

The draft varied permit includes the requirement to use an additional operating technique and an improvement condition. It also includes 2 pre-operational conditions which need Environment Agency approval before the proposed power station can be commissioned or begin to operate. These are included to make sure that NNB Generation Company (Hinkley Point C) Limited builds and operates the proposed power station according to the commitments made in its permit application.

## Our consultation

The 4 week consultation begins on 25 April 2023 and will close on 25 May 2023.

## Your views count

We aim to build and maintain confidence in our decision-making processes through our public engagement and consultation. It is our responsibility to make decisions about the environmental permit applications for Hinkley Point C, but we consider that our decisions are better informed through consultation.

We can all help to protect and improve the environment by being actively involved. Our [public participation statement](#) shows how our process is open, transparent and consultative. We would like people to understand our role, what we are doing and why it's important.

When we consult, we explain that the consultations are not about the need for nuclear power, UK energy policy or policy relating to the siting of nuclear power stations.

During our consultations we share information with people, explain our proposed decisions and we emphasise that we will not make any final decisions until we have considered all relevant responses to the consultation.

Our approach to consultation is in line with the government's published [consultation principles](#) and our public participation statement.

Our consultations are open to everyone and, in particular, we invite the following groups to take part:

- members of the public and communities (including local interest and action groups), particularly those in west Somerset near to the Hinkley site
- elected representatives, including MPs
- local councils near the site
- the nuclear industry
- academics, scientists and consultants with an interest in nuclear power, energy or the environment
- non-governmental organisations (NGOs), campaign groups and environmental groups
- statutory consultees
- other government agencies
- other regulators
- any other organisation or public bodies

## Documents for public consultation

You can find details of our consultation questions and documents on [GOV.UK](#) and the Environment Agency's [online consultation webpage](#).

We have published the following documents for you to consider:

- draft permit for a water discharge activity
- draft decision document for variation of the water discharge activity permit
- Habitats Regulations assessment report
- SSSI assessment report
- WFD compliance assessment report

## How to respond to the consultation

We want your comments on the proposed decision we have made for this permit for Hinkley Point C.

If you have any relevant information you feel we have missed, you can provide your comments.

Our consultation does not relate to the UK EPR™ design. It is not about the need for nuclear power, UK energy policy, the siting of nuclear power stations, nor the safety and security of the design. Here are the aspects and issues we can and cannot take account of.

We can take account of:

- relevant environmental regulatory requirements and technical standards
- information on local population and sensitive sites
- comments on whether the right process is being used for the activity, for example, whether the technology is the right one
- the potential for the land around the site to have an effect on air quality and what pollution control may be needed
- information that we have not been made aware of in the application, or corrections to incorrect information in the application

We cannot take account of:

- issues beyond those in the relevant environmental regulations
- anything outside the remit of the environmental permitting regulations, for example, the proposed location of the site, which is done by the local authority through land use planning
- whether a site should have a formal designation under the conservation of habitats and species regulations or other conservation legislation
- whether the activity should be allowed or not as a matter of principle – for example, we will not consider whether nuclear power generation is an appropriate process or whether alternative methods of generating electricity should be used instead
- land use issues or sustainability challenges, even if it is argued that changing the location of the activity would improve its environmental performance
- the impact of noise and odour from traffic travelling to and from the site
- the legally defined process we follow to determine a permit
- comments about the government's energy policy

## There are several ways you can let us know your views

### Online

Visit our [e-consultation website](#).

We have designed the online consultation to make it easy to submit responses to the questions. We would prefer you to comment online as this will help us to gather and summarise responses quickly and accurately.

All documents are also published on GOV.UK.

### By email or letter

You can also submit a response by email or letter.

Email: [psc-waterquality@environment-agency.gov.uk](mailto:psc-waterquality@environment-agency.gov.uk)

Post to:

- Hinkley C Consultation  
Environment Agency  
Permit Support Centre  
Quadrant 2  
99 Parkway Avenue  
Park way Business Park  
Sheffield  
S9 4WF

### **Public engagement**

You can join our online meeting on 10 May from 4:00pm-5:00pm. Email [HinkleyNuclear@environment-agency.gov.uk](mailto:HinkleyNuclear@environment-agency.gov.uk) to ask to join the meeting.

We have deliberately made this process open, clear and consultative, subject to commercial and security sensitive constraints, because this helps to inform our decision and build confidence in us and the process.

## **Next steps**

### **Publishing our final decision**

The Environment Agency will carefully consider all the relevant information we receive during consultation, together with existing information. We will continue to determine this permit and have not yet reached a final decision.

The Environment Agency will publish a summary of relevant responses made during this consultation when we release our final permit and decision document.

We will publish our final decision document in summer 2023.

### **Future engagement**

We will continue our programme of communications and stakeholder engagement for Hinkley Point C and other nuclear developments and projects. This includes holding events with communities and stakeholders.

Find out more about our [work at Hinkley C](#).

## **Contact us**

You can feed back on this document or our work in regulating Hinkley Point C. Email your questions and comments to [nuclear@environment-agency.gov.uk](mailto:nuclear@environment-agency.gov.uk).

# Trwydded amgylcheddol i Hinkley Point C: crynodeb o'r penderfyniad a gynigir

## Cyflwyniad

Asiantaeth yr Amgylchedd yw'r rheoleiddiwr amgylcheddol annibynnol ar gyfer y diwydiant niwclear yn Lloegr. Byddwn yn sicrhau y bydd gorsafoedd ynni niwclear yn cyrraedd safonau uchel o ran diogelu'r amgylchedd.

Bydd rhaid i unrhyw gwmni sydd am weithredu gorsaf ynni niwclear ddangos ei fod yn gallu gwneud hynny'n ddiogel, gan ddiogelu'r amgylchedd fel rhan o hynny hefyd:

- adeiladu, comisiynu, gweithredu a datgomisiynu'r orsaf bŵer
- rheoli'r gwastraff mae'n ei gynhyrchu

Fis Rhagfyr 2022, cyflwynodd NNB Generation Company (Hinkley Point C) Limited gais i Asiantaeth yr Amgylchedd i newid ei drwydded ar gyfer gweithgarwch gollwng dŵr. Gwnaethom ymgynghori ar y cais rhwng mis Ionawr a mis Mawrth 2023.

Yn y cais, gofynnwyd i Asiantaeth yr Amgylchedd wneud y newidiadau hyn i'r drwydded:

- cael gwared ar yr holl gyfeiriadau at y ddyfais atal pysgod yn acwstig (AFD)
- cael gwared ar yr holl gyfeiriadau at effeithiau alldynnu dŵr oeri oherwydd nad yw Asiantaeth yr Amgylchedd yn rheoleiddio hyn o'r môr agored
- ychwanegu gollwng dŵr môr a biomas o'r system adfer a dychwelyd pysgod

Penderfyniad arfaethedig Asiantaeth yr Amgylchedd yw caniatáu'r amrywiad mae'r gweithredwr wedi gofyn amdano. Rydym yn cynnig ychwanegu amodau a chyfyngiadau newydd yn y drwydded i ddiogelu pobl a'r amgylchedd.

Rydym am i'ch safbwyntiau ar ein penderfyniad arfaethedig a'n caniatâd drafft ein helpu ni i gyrraedd penderfyniad terfynol yn haf 2023.

## Gorsafoedd pŵer niwclear newydd – safbwynt y llywodraeth

Mae polisi ynni, gan gynnwys y defnydd o bŵer niwclear, yn fater i'r llywodraeth. Cyhoeddodd y llywodraeth [Bapur gwyn ar ynni: Powering our Net Zero Future](#) yn 2020 a sefydlodd yr angen am bŵer niwclear, ymhlith mesurau eraill, i helpu'r DU gyflawni sero net erbyn 2050.

Yn 2022, cyhoeddodd y llywodraeth y [British Energy Security Strategy](#). Nodwyd ynddo nod y bydd hyd at chwarter y pŵer a ddefnyddir ym Mhrydain Fawr yn dod o ffynhonnell niwclear erbyn 2050.

Rydym wedi cyhoeddi ein cynllun ein hunain, [EA2025 creating a better place](#) i arwain ein gweithgareddau.

Ceir 3 nod yn ein cynllun gweithredu 5 mlynedd (EA2025):

- cenedl sy'n wydn i newid hinsawdd
- awyr, tir a dŵr iach
- twf gwyrdd a dyfodol cynaliadwy

Byddwn yn parhau i weithio gyda'r llywodraeth, partneriaid rheoliadol, y diwydiant ac eraill i alluogi cynhyrchu ynni niwclear. Ac wrth wneud hyn, byddwn yn sicrhau bod pobl a'r amgylchedd yn cael eu diogelu'n briodol. Mae niwclear yn ffynhonnell ynni carbon isel a allai gyfrannu'n sylweddol at nodau sero net a gweithredu y British Energy Security Strategy.

Mae ein prosesau yn cyd-fynd â nodau EA2025 oherwydd eu bod yn sicrhau bod gorsafydd pŵer niwclear wedi'u dylunio a'u gweithredu mewn ffyrdd sy'n lleihau gwastraff, yn ystyried cynaliadwyedd ac yn gwarchod yr amgylchedd.

## Rheoleiddio gorsafydd pŵer niwclear

Mae Asiantaeth yr Amgylchedd yn rheoleiddio materion amgylcheddol penodol mewn safleoedd niwclear yn Lloegr drwy roi trwyddedau amgylcheddol. Mae'r trwyddedau hyn yn berthnasol i'r canlynol:

- ymchwilio a pharatoi safle
- gwaith adeiladu a datblygiadau perthnasol cysylltiedig (megis llety gweithwyr)
- gweithredu a datgomisiynu'r orsaf bŵer

Wrth benderfynu pa un ai a ddylid rhoi'r trwyddedau ai peidio, byddwn yn ystyried materion sy'n berthnasol i'r safle penodol yn ogystal â'r Asesiad Dyluniad Generig ar gyfer y dyluniad sydd wedi'i gynnig ar gyfer y safle.

Rydym hefyd yn gweithio'n agos gyda'r Swyddfa Rheoleiddio Niwclear sy'n rheoleiddio diogelwch safleoedd niwclear.

Darllenwch am ein rôl fel [rheoleiddiwr ar safleoedd niwclear](#).

## Cefndir Hinkley

Mae gorsafydd pŵer niwclear Hinkley Point ar arfordir gogleddol Gwlad yr Haf. Hinkley Point A oedd gorsaf bŵer gyntaf Hinkley Point. Bu'n weithredol rhwng 1965 a 2000 ac mae'n cael ei ddatgomisiynu ar hyn o bryd.

Dechreuodd Hinkley Point B weithredu ym 1976. Nid yw'n cynhyrchu ynni ers 1 Awst 2022.

Mae NNB Generation Company (Hinkley Point C) Ltd, cwmni EDF Energy, yn adeiladu gorsaf bŵer niwclear adweithydd dwbl newydd ar y safle. Disgwylir iddo ddechrau cynhyrchu trydan yn 2026.


Darllenwch am ein rheoliad o [orsaf pŵer Hinkley Point C](#).

# Dyluniad UK EPR™ y DU

Mae amrywiol fathau o adweithyddion niwclear i'w cael ledled y byd. Un o'r mathau mwyaf cyffredin yw'r adweithydd dŵr dan wasgedd, yn cynnwys EPR™ y DU.

Yng nghraidd yr adweithydd, mae rhai o'r atomau wraniwm sy'n creu'r tanwydd yn hollti fel rhan o broses a elwir yn holltiad niwclear. Mae'r holltiadau hyn yn creu gwres mewn proses barhaus o'r enw adwaith cadwynol. Caiff y gwres a grëir drwy hollti niwclear ei ddefnyddio i gynhesu dŵr y tu mewn i'r adweithydd, sy'n cael ei gylchredeg gan bympiau yn y prif gylchred i eneradur stêm. Yn yr eneradur stêm, caiff dŵr poeth iawn y cylchred cyntaf ei ddefnyddio i gynhesu dŵr yn yr ail gylchred sydd ar wahân. Mae hyn yn cynhyrchu stêm sydd yna'n cael ei fwydo i dyrbin. Mae hyn yn achosi i'r tyrbin droi a gyrru generadur sy'n cynhyrchu ynni.

Mae'r ddelwedd hon yn dangos sgematig wedi'i symleiddio o'r adweithydd EPR™



## Y system dŵr oeri


Yng ngorsafodd pŵer y DU, fel arfer caiff dŵr môr ei ddefnyddio yn y drydedd gylchred ddŵr i oeri cyddwysydd y tyrbin, gan droi stêm yr ail gylchred yn ôl i ddŵr.

Ar gyfer Hinkley Point C, bydd hyn yn gofyn cyflenwad di-dor o ddŵr o'r Môr Hafren drwy 2 dwnnel mewnbyn 3.3km oddi wrth y lan, un ar gyfer bob adweithydd. Mae pob twnel mewnlf yn cynnwys 2 ben mewnlf mynediad ochr cyflymder isel.

Ar ôl cael ei ddefnyddio yn yr orsaf, byddai'r dŵr môr wedyn yn cael ei ryddhau'n ôl i'r Môr Hafren ar dymheredd uwch drwy un twnel gollwng dŵr oeri (yn gwasanaethu'r ddau adweithydd), oddeutu 1.8km o hir.

Bydd ychydig o'r dŵr môr yn cael ei ollwng yn ôl i'r Môr Hafren gan ddefnyddio system adfer a dychwelyd pysgod drwy dwnel gollwng ar wahân, oddeutu 0.5km o hir.

Mae'r cwmni wedi creu'r diagram hwn yn dangos ei gynnig ar gyfer system gwarchod pysgod.



Ystyrir y system oeri gan y 3 rheoleiddiwr sydd â phwerau rheoleiddio gwahanol, sef:

- Asiantaeth yr Amgylchedd mewn perthynas â'r drwydded gweithgarwch gollwng dŵr
- Yr Ysgrifennydd Gwladol dros Sicrwydd Ynni a Sero Net (y Strategaeth Busnes, Ynni a Diwydiannol gynt) mewn perthynas â'r Gorchymyn Cydsyniad Datblygu
- Y Sefydliad Rheoli Morol mewn perthynas â'r drwydded forol

Nid yw Asiantaeth yr Amgylchedd yn rheoleiddio'r mewnlifiad o ddŵr oeri o'r môr yn Hinkley Point C gan fod angen trwydded echdynnu dŵr arnoch ar gyfer cymryd dŵr o lynoedd, afonydd, aberoedd neu ffrydiau dŵr, neu o ddŵr daear yn unig dan y Ddeddf Adnoddau Dŵr. Ystyrir y mewnlif hwn yn fewnlif o fôr agored.

## Ein hymgyngoriad ar y cais am drwydded

Gwnaethom ymgynghori'n gyhoeddus ar gais NNB Generation Company (Hinkley Point C) Limited i amrywio'r drwydded gweithgarwch gollwng dŵr o 24 Ionawr hyd at 2 Mawrth 2023.

Gallwch weld yr [ymgyngoriad sydd wedi dod i ben bellach](#) a'r ymatebion (os cafwyd caniatâd gan yr ymatebwr) ar wefan ein hymgyngoriad. Daeth 50 o ymatebion i'r ymgynghoriad i law gan aelodau'r cyhoedd, cynghorau lleol, grwpiau amgylcheddol, cyrff ac adrannau cyhoeddus, a phartïon eraill â diddordeb.

Rydym wedi bod yn ystyried yr ymatebion perthnasol i'r ymgynghoriad ac wedi bod yn cynnal ein hasesiadau ers hynny.

Defnyddiasom yr ymatebion perthnasol i helpu i fod yn sail i'n penderfyniadau arfaethedig ar ba un ai a ddylid caniatáu'r amrywiad i'r drwydded a pha amodau neu gyfyngiadau a ddylai newid. Rydym yn ddiolchgar i bawb a gymerodd o'u hamser i ymateb i'r ymgynghoriad a mynychu digwyddiad ein hymgyngoriad.

Rydym yn ymdrin ag unrhyw faterion a godwyd yn ein dogfen penderfyniad arfaethedig, lle'r ydym hefyd yn nodi ein casgliadau drafft ar gais y cwmni.



## Y drwydded gweithgarwch gollwng dŵr bresennol

Roedd y cais gwreiddiol am drwydded gweithgarwch gollwng dŵr (yn 2011) yn cynnwys AFD yn nyluniad y system dŵr oeri. Mae hon yn defnyddio sain i annog pysgod i symud oddi wrth y mewnlifiad dŵr. Y nod felly yw lleihau nifer y pysgod y gellir eu tynnu i'r beipen. Cynigwyd yr AFD yn un o dri mecanwaith gwarchod pysgod gyda mewnlifiad ochr cyflymder isel a system adfer a dychwelyd pysgod.

Mae'r drwydded gweithgarwch gollwng dŵr gyfredol, a gyhoeddwyd yn 2013, yn caniatáu i'r system dŵr oeri weithredu yn ôl y disgrifiad yn y cais. Gwnaethom gynnwys amodau yn y drwydded honno a oedd yn ei gwneud hi'n ofynnol i'r gweithredwr gyflwyno adroddiadau i Asiantaeth yr Amgylchedd yn disgrifio sut fydd eu AFD arfaethedig yn gweithredu ac yn lleihau unrhyw effeithiau ar bysgod.

Mae'r gweithredwr nawr yn gofyn i ni gael gwared ar yr amodau hyn o'r drwydded gan nad ydynt bellach yn bwriadu defnyddio AFD yn nyluniad yr orsaf.

Mae gofyniad tebyg yn y Gorchymyn Cydsyniad Datblygiad ac yn y drwydded forol, a gafodd eu cyhoeddi ar yr un pryd â'r drwydded, ar gyfer yr AFD. Ar ôl ymgynghori â Natural England a'r Sefydliad Rheoli Morol, rydym wedi dod i'r casgliad mai'r ffordd fwyaf priodol o reoleiddio'r mewnlif dŵr oeri yw drwy'r Gorchymyn Cydsyniad Datblygiad.

Wrth ystyried y cais hwn am amrywiad yn y drwydded, gwnaethom asesu effeithiau tynnu'r AFD ar y canlynol:

- \* y potensial am lygredd dŵr
- \* cynefinoedd a rhywogaethau yr effeithir arnynt yn uniongyrchol gan y gollyngiad dŵr o'r system adfer a dychwelyd pysgod

## Y penderfyniad a gynigir gennym

Y penderfyniad a gynigir gennym yw y dylem gymeradwyo'r amrywiad yn y drwydded ar gyfer y gweithgarwch gollwng dŵr. Bydd y cyfyngiadau a'r amodau ynghlwm â'r drwydded yn sicrhau bod pobl a'r amgylchedd wedi'u gwarchod rhag y gweithgarwch gollwng dŵr dan weithrediad arferol.

I gyrraedd y penderfyniad a gynigir gennym, gwnaethom ystyried y canlynol:

- \* y ddeddfwriaeth berthnasol
- \* polisi a chanllawiau'r llywodraeth
- \* ein harweiniad ein hunain
- \* yr ymatebion perthnasol i'n hymgynghoriad ar gais y drwydded

Gwnaethom hefyd gwblhau'r asesiadau hyn:

- Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd (HRA)
- asesiad safleoedd o ddiddordeb gwyddonol arbennig (SoDdGA)
- Asesiad cydymffurfiaeth y Gyfarwyddeb Fframwaith Dŵr

## Asesu effeithiau ar safleoedd bywyd gwyllt dynodedig

Cyn gwneud penderfyniadau ynglŷn â cheisiadau am drwyddedau, rhaid i ni gynnal asesiadau i wirio a allai gweithgareddau a wneir dan drwydded amgylcheddol effeithio ar safleoedd bywyd gwyllt dynodedig. Mae hyn yn cynnwys cynnal asesiad rheoliadau cynefinoedd ar safleoedd Ewropeaidd, ac asesiad o weithrediadau sy'n debygol o wneud niwed i safleoedd o ddiddordeb gwyddonol arbennig.

### Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd

Mae asesiad rheoliadau cynefinoedd yn asesiad y mae'n ofynnol i ni ei gwblhau wrth i ni bennu trwydded ar gyfer gweithgarwch a allai gael effaith sylweddol ar safle Ewropeaidd. Nid oes angen i'r gweithgarwch ddigwydd ar safle Ewropeaidd i gael effaith, ond rhaid bod cyswllt, neu lwybr at safle, a rhaid i'r nodweddion y tu mewn i'r safle hwnnw fod yn sensitif i'r risgiau.

Mae safleoedd Ewropeaidd yn cynnwys:

- Ardaloedd Cadwraeth Arbennig – sydd wedi'u dynodi oherwydd eu bod yn safleoedd cynefinoedd o ansawdd dda a phwysig a rhywogaethau prin
- Ardaloedd Gwarchodaeth Arbennig – i warchod adar prin a bregus
- Safleoedd Ramsar

Mae safleoedd Ramsar yn wlypdiroedd o bwys rhyngwladol wedi'u dynodi dan y Confensiwn Ramsar, ond polisi'r llywodraeth yw y rhoddir yr un warchodaeth iddynt ag ardaloedd cadwraeth arbennig ac ardaloedd gwarchodaeth arbennig.

Yr enw ar y cynefinoedd a'r rhywogaethau y'u gwarchodir gan y safleoedd Ewropeaidd hyn yn gyffredinol yw 'nodweddion dynodedig'.

Rhaid cynnal yr asesiad ar ei ben ei hun ac mewn cyfuniad â chydsyniadau, cynlluniau a phrosiectau eraill ar nodweddion dynodedig y safleoedd.

### Asesiad safle o ddiddordeb gwyddonol arbennig

Mae'r asesiad safle o ddiddordeb gwyddonol arbennig yn brawf y mae'n rhaid i ni ei wneud wrth bennu trwydded i asesu a yw gweithgarwch yn debygol o wneud niwed i'w nodweddion.

Safleoedd o ddiddordeb gwyddonol arbennig yw'r safleoedd gorau ar gyfer bywyd gwyllt a nodweddion byd natur yn Lloegr, yn cefnogi nifer o rywogaethau, cynefinoedd a nodweddion naturiol prin a dan fygythiad.

## Ystyriaethau ein hasesiadau ecolegol

Gwnaethom ystyried effaith debygol pysgod ac infertebratau marw a difrodedig yn cael eu gollwng o allbynnau'r system adfer a dychwelyd pysgod ar ecoleg ac ansawdd dŵr. Mae hyn yn cynnwys:

- \* unrhyw effaith mygu o'r biomas hwn ar rywogaethau a chynefinoedd
- \* newidiadau i ansawdd dŵr o ryddhau cemegion a maetholion o'r biomas hwn yn pydru
- \* effaith ddilynol gall y newid hwn mewn ansawdd dŵr ei chael ar rywogaethau a chynefinoedd
- \* unrhyw gynefinoedd a gollir oherwydd yr effeithiau posibl hyn

Gwnaethom ystyried y gollyngiad hwn yn unig gan mai dyma'r unig un yr effeithir arno gan yr amrywiad hwn i'r drwydded am weithgarwch gollwng dŵr. Ar gyfer ein HRA, gwnaethom asesu holl risgiau posibl hyn ar eu pen eu hunain a'u cyfuno â'r risgiau o'r gweithgareddau eraill sy'n mynd rhagddynt a phrosiectau sydd wedi'u trefnu yn yr ardal.

Cafodd y safleoedd Ewropeaidd canlynol eu hadnabod fel safleoedd sydd â'r potensial o gael eu heffeithio'n niweidiol gan y risgiau a nodir uchod:

- Ardal Cadwraeth Arbennig aber yr Afon Hafren
- Ardal Gwarchodaeth Arbennig aber yr Afon Hafren
- Ramsar aber yr Afon Hafren
- Ardal Cadwraeth Arbennig yr Afon Wysg
- Ardal Cadwraeth Arbennig yr Afon Gwy
- Ardal Gwarchodaeth Arbennig Gwastatiroedd a Rhosydd Gwlad yr Haf
- Ramsar Gwastatiroedd a Rhosydd Gwlad yr Haf
- Ardaloedd Cadwraeth Arbennig Dynesfeydd Môr Hafren

Byddai'r risgiau posibl yn deillio o halogiad gwenwynig, gorfaethu, a mygu drwy bysgod ac infertebratau marw a difrodedig, gyda'r potensial i achosi colli cynefinoedd hefyd.

Mae ein hasesiad rheoli cynefinoedd yn dangos na fydd rhyddhau pysgod ac infertebratau marw a difrodedig o'r system adfer a dychwelyd pysgod yn arwain at effaith niweidiol ar integriti safleoedd Ewropeaidd.

### **Safleoedd o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig**

Mae'r 8 safle o ddiddordeb gwyddonol arbennig wedi'u hadnabod fel y rhai a all fod mewn risg yn sgil y system adfer a dychwelyd pysgod yn Hinkley Point C:

- Safle o ddiddordeb gwyddonol arbennig Bridgwater Bay
- Safle o ddiddordeb gwyddonol arbennig Blue Anchor i Arfordir Lilstock
- Safle o ddiddordeb gwyddonol arbennig Steep Holm
- Safle o ddiddordeb gwyddonol arbennig Brean Down
- Safle o ddiddordeb gwyddonol arbennig aber yr Afon Hafren
- Safle o ddiddordeb gwyddonol arbennig Flat Holm
- Safle o ddiddordeb gwyddonol arbennig yr Afon Wysg
- Safle o ddiddordeb gwyddonol arbennig yr Afon Gŵyr

Byddai'r risgiau posibl yn deillio o halogiad gwenwynig, gorfaethu, a mygu drwy bysgod ac infertebratau marw a difrodedig, gyda'r potensial i achosi colli cynefinoedd hefyd.

Mae ein hasesiad o safle o ddiddordeb gwyddonol arbennig yn dangos na fydd rhyddhau pysgod ac infertebratau marw a difrodedig o'r system adfer a dychwelyd pysgod yn arwain at gyflwr y safleoedd yn dirywio, ac ni fydd ychwaith yn eu hatal rhag gwella neu adfer pryd bynnag mae angen.

## Cydymffurfio â'r Gyfarwyddeb Fframwaith Dŵr

Pan wnaethom asesu'r risg o lygredd o bysgod ac infertebratau marw a difrodedig, canfuom na fyddai newidiadau yn ansawdd dŵr yn cyfaddawdu amcanion amgylcheddol corff dŵr. Gwnaethom ystyried sut all y gollyngiadau effeithio ar yr amgylchedd yn gyfan gwbl gyda'r data sydd ar gael am weithgareddau eraill ac ni chanfuom unrhyw achos am effeithiau sylweddol.

Felly, cynigiwn mai risg isel iawn sydd o'r cyrff dŵr hyn yn methu â bodloni eu hamcanion dan y Gyfarwyddeb Fframwaith Dŵr oherwydd y gollyngiadau hyn.

## Y drwydded ddrafft gydag amodau a chyfyngiadau arfaethedig

Yn yr adran hon ceir gwybodaeth ynghylch yr hyn mae'r amrywiad yn y drwydded ddrafft yn ei ganiatáu, ac unrhyw newidiadau i gyfyngiadau ac amodau.

Mae'r drwydded bresennol yn rheoleiddio'r gweithgareddau gollwng dŵr gweithredol o Hinkley Point C – rhyddhau'r elifiannau hylif anymbelydrol:

- dŵr oeri yn dychwelyd o gyddwysyddion y tyrbinau
- elifiannau'r broses fasnachu o amrywiol systemau'r orsaf (gan gynnwys y rheini sy'n cynnal purdeb dŵr a chemeg i gynnal yr amodau gweithredu gorau a gwneud y mwyaf o effeithiolrwydd)
- elifiannau carthffosiaeth wedi'i drin (o gyfleusterau llesiant staff)

Bydd y drwydded ddrafft wedi'i hamrywio hefyd yn rheoleiddio'r dŵr môr a ddychwelir drwy system adfer a dychwelyd pysgod.

O ganlyniad i'n hasesiad ar effaith yr hyn sy'n cael ei ollwng o'r system adfer a dychwelyd pysgod, rydym yn cynnig cynnwys cyfyngiadau ar gyfaint, cyfradd a'r cyfanswm biomas a ollyngir o allbwn y system adfer a dychwelyd pysgod.

Rydym yn cynnig cael gwared ar bob amod (neu rannau o amodau) sy'n ymwneud â'r AFD.

Casglwn na fyddai unrhyw effaith negyddol ar integriti safleoedd Ewropeaidd perthnasol (mewn perthynas â llygredd o ollyngiadau rheoledig i ddyfroedd) os nad oes AFD mewn lle. Mae hyn yn cynnwys y safleoedd hynny sy'n weithredol gysylltiedig ag aber yr Afon Hafren.

Casglwn hefyd na fydd y drwydded arfaethedig yn achosi statws cyfredol y cyrff dŵr i ddirywio, nac eu hatal rhag cyflawni eu hamcanion.

Mae'r drwydded wedi'i hamrywio ddrafft yn cynnwys y gofyniad i ddefnyddio techneg weithredu ychwanegol ac amod gwella. Mae hefyd yn cynnwys 2 amod cyn-weithredol sydd angen eu cymeradwyo gan Asiantaeth yr Amgylchedd cyn y gellir comisiynu neu ddechrau gweithredu'r orsaf bŵer arfaethedig. Caiff y rhain eu cynnwys i sicrhau bod NNB Generation Company (Hinkley Point C) Limited yn adeiladu ac yn gweithredu'r orsaf bŵer arfaethedig yn unol â'r ymrwymadau a wneir yn ei gais am drwydded.

# Ein hymgyngoriad

Mae'r ymgynghoriad sy'n para 4 wythnos yn agor 25 Ebrill 2023 a bydd yn dod i ben 25 Mai 2023.

## Mae eich barn yn bwysig

Ein nod yw hyrwyddo a chynnal hyder yn ein prosesau gwneud penderfyniad drwy ymgysylltu ac ymgynghori â'r cyhoedd. Ein cyfrifoldeb ni yw gwneud penderfyniadau ynghylch y ceisiadau am drwydded amgylcheddol ar gyfer Hinkley Point C, ond rydym yn ystyried bod ein penderfyniadau yn well drwy ymgynghori.

Gallwn ni i gyd ddiogelu a gwella'r amgylchedd drwy gymryd rhan weithredol. Mae ein [datganiad o gyfranogiad y cyhoedd](#) yn dangos sut mae ein proses yn agored, tryloyw ac ymgynghorol. Hoffem i bobl ddeall ein rôl, yr hyn yr ydym ni'n ei wneud a pham mae'n bwysig.

Pan fyddwn yn ymgynghori, rydym yn egluro nad yw'r ymgynghoriadau yn seiliedig ar yr angen am ynni niwclear, polisi'r DU na'r polisi sy'n ymwneud â lleoli gorsafedd pŵer niwclear.

Yn ystod ein hymgyngoriadau, rydym yn rhannu gwybodaeth gyda phobl, yn egluro'r penderfyniadau yr ydym yn eu cynnig ac yn pwysleisio na fyddwn yn gwneud unrhyw benderfyniadau terfynol nes ein bod wedi ystyried pob ymateb perthnasol i'r ymgynghoriad.

Mae ein dull o ymgynghori yn unol ag [egwyddorion ymgynghori](#) cyhoeddedig y llywodraeth a'n datganiad cyfranogiad cyhoeddus.

Mae ein hymgyngoriadau yn agored i bawb ac rydym yn gwahodd yn arbennig y grwpiau canlynol i gymryd rhan:

- aelodau'r cyhoedd a chymunedau (yn cynnwys grwpiau buddiant a gweithredu lleol), yn enwedig y rheini yng ngorllewin Gwlad yr Haf ger safle Hinkley
- cynrychiolwyr etholedig, gan gynnwys Aelodau Seneddol
- cynghorau lleol wrth ymyl y safle
- y diwydiant niwclear
- academyddion, gwyddonwyr ac ymgynghorwyr sydd â diddordeb mewn ynni niwclear, ynni neu'r amgylchedd
- sefydliadau anllywodraethol, grwpiau ymgyrchu a grwpiau amgylcheddol
- ymgynghoreion statudol
- asiantaethau eraill y llywodraeth
- rheoleiddwyr eraill
- unrhyw sefydliad neu gorff cyhoeddus eraill

## Dogfennau ar gyfer ymgynghoriad cyhoeddus

Cewch fanylion cwestiynau a dogfennau ein hymgyngoriad ar [GOV.UK](#) a thudalen we ymgynghoriad ar-lein [Asiantaeth yr Amgylchedd](#).

Rydym wedi cyhoeddi'r dogfennau canlynol er eich ystyriaeth:

- trwydded ddrafft ar gyfer gweithgarwch gollwng dŵr
- dogfen penderfyniad ddrafft ar gyfer amrywio'r drwydded gweithgarwch gollwng dŵr
- Adroddiad asesiad Rheoliadau Cynefinoedd
- Adroddiad asesiad Safle o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig

- Adroddiad asesiad cydymffurfio â Chyfarwyddeb Fframwaith Dŵr

## Sut i ymateb i'r ymgynghoriad

Hoffem eich safbwyntiau chi ynghylch y penderfyniad yr ydym wedi'i gynnig ar gyfer y drwydded hon i Hinkley Point C.

Os oes gennych unrhyw wybodaeth berthnasol yr ydych chi'n credu ein bod wedi'i methu, gallwch rannu'ch sylwadau.

Nid yw ein hymgyngoriad yn ymwneud â dyluniad EPR™ y DU. Nid yw'n ymwneud â'r angen am bŵer niwclear, polisi ynni'r DU, lleoli gorsafoddd pŵer niwclear, na diogelwch y dyluniad. Dyma'r agweddau a'r materion y gallwn ac na allwn gymryd ystyriaeth ohonynt.

Gallwn ystyried y canlynol:

- gofynion rheoleiddio amgylcheddol a safonau technegol perthnasol
- gwybodaeth ar boblogaeth leol a safleoedd sensitif
- sylwadau ar ba un ai a yw'r broses gywir yn cael ei defnyddio ar gyfer y gweithgarwch, er enghraifft, boed ydym yn defnyddio'r dechnoleg gywir
- y potensial i'r tir o gwmpas y safle gael effaith ar ansawdd aer a pha fesurau rheoli llygredd y gellir bod eu hangen
- gwybodaeth nad ydym wedi cael gwybod amdani yn y cais, neu gywiriadau i wybodaeth anghywir yn y cais

Ni allwn ystyried y canlynol:

- materion y tu hwnt i'r rheoliadau amgylcheddol perthnasol hynny
- unrhyw beth y tu hwnt i gylch gwaith y rheoliadau cydsynio amgylcheddol, er enghraifft, lleoliad arfaethedig y safle, a wneir gan yr awdurdod lleol drwy gynllunio defnydd tir
- pa un a ddylai bod gan safle ddynodiad ffurfiol o dan y rheoliadau cadwraeth cynefinoedd a rhywogaethau neu ddeddfwriaeth gadwraeth arall
- pa un ai a ddylid caniatáu'r gweithgarwch ai peidio fel mater o egwyddor – er enghraifft, ni fyddwn yn ystyried a yw cynhyrchu pŵer niwclear yn broses briodol neu a ddylid defnyddio dulliau eraill o gynhyrchu trydan
- materion defnydd tir neu heriau cynaliadwyedd, hyd yn oed pe bai newid lleoliad y gweithgaredd yn gwella'i berfformiad amgylcheddol
- effaith sŵn ac arogl gan draffig yn teithio i'r safle ac oddi yno
- y broses wedi'i diffinio'n gyfreithiol yr ydym yn ei dilyn i wneud penderfyniad am drwydded
- sylwadau am bolisi ynni'r llywodraeth

## Mae sawl ffordd y gallwch gyflwyno'ch safbwyntiau i ni

### Ar-lein

Ewch i [wefan ein e-ymgynghoriad](#).

Rydym wedi dylunio'r ymgynghoriad ar-lein mewn modd sy'n sicrhau y bydd hi'n hawdd cyflwyno ymatebion i'r cwestiynau. Byddai'n well gennym pe baech yn gwneud sylwadau ar-lein oherwydd bydd hyn yn ein helpu i gasglu a chrynhofi'r ymatebion yn gyflym ac yn gywir.

Mae'r holl ddogfennau hefyd wedi'u cyhoeddi [ar GOV.UK](#).

## Drwy neges e-bost neu lythyr

Gallwch hefyd gyflwyno ymateb drwy e-bost neu'r post.

E-bost: [psc-waterquality@environment-agency.gov.uk](mailto:psc-waterquality@environment-agency.gov.uk)

Postiwch i:

- Hinkley C Consultation  
Environment Agency  
Permit Support Centre  
Quadrant 2  
99 Parkway Avenue  
Park way Business Park  
Sheffield  
S9 4WF

## Ymgysylltu â'r cyhoedd

Gallwch ymuno â'n cyfarfod ar-lein ar 10 Mai 4:00 pm-5:00 pm. Anfonwch e-bost i [HinkleyNuclear@environment-agency.gov.uk](mailto:HinkleyNuclear@environment-agency.gov.uk) i ofyn am gael ymuno â'r cyfarfod.

Rydym yn fwriadol wedi gwneud y broses hon yn un agored, clir ac ymgynghorol, yn ddarostyngedig i gyfyngiadau masnachol a sensitif o ran diogelwch, oherwydd mae hyn yn helpu i fod yn sail i'n penderfyniad a magu ymddiriedaeth ynom ni a'r broses.

## Camau nesaf

### Cyhoeddi ein penderfyniad terfynol

Bydd Asiantaeth yr Amgylchedd yn ystyried yn ofalus yr holl wybodaeth berthnasol a gawn yn ystod yr ymgynghoriad, ynghyd â'r wybodaeth gyfredol. Byddwn yn parhau i bennu'r drwydded hon ac nid ydym wedi gwneud penderfyniad terfynol eto.

Bydd Asiantaeth yr Amgylchedd yn cyhoeddi crynodeb o'r ymatebion perthnasol a wnaed yn ystod yr ymgynghoriad hwn pan fyddwn yn cyhoeddi ein trwydded a'n dogfen penderfyniad terfynol.

Byddwn yn cyhoeddi ein dogfen penderfyniad terfynol yn haf 2023.

### Ymgysylltu yn y dyfodol

Byddwn yn parhau â'n rhaglen o ohebiaethau ac ymgysylltu â rhanddeiliaid ar gyfer Hinkley Point C a datblygiadau a phrosiectau niwclear eraill. Mae hyn yn cynnwys cynnal digwyddiadau gyda chymunedau a rhanddeiliaid.

Cewch ragor o wybodaeth ynghylch ein [\[gwaith yn Hinkley C\]](#).

### Cysylltwch â ni

Gallwch anfon eich adborth ar y ddogfen hon neu ar ein gwaith o reoleiddio Hinkley Point C. Anfonwch eich cwestiynau a'ch sylwadau drwy e-bost i [nuclear@environment-agency.gov.uk](mailto:nuclear@environment-agency.gov.uk).